




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Polisi Diogelu

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
(a)	Datganiad Egwyddorion	3
(b)	Nod	3
(c)	Rolau a Chyfrifoldebau Allweddol	3
(d)	Cwmpas Polisi Diogelu'r Brifysgol	6
(e)	Diffiniadau	8
2.	Myfyrwyr o dan 18 oed	8
3.	Polisiâu a Gweithdrefnau Perthnasol y Brifysgol	9
4.	Diogelu a Prevent	10
5.	Nodi a gweithredu ar bryderon neu amheuron o niwed	11
6.	Hyfforddiant ac arweiniad	11
(a)	Hyfforddiant	11
(b)	Arweiniad	11
7.	Goblygiadau Adnoddau	13
8.	Asesu Effaith	14
9.	Rheoli fersiynau'r ddogfen	15
	ATODIAD 1 – Gweithdrefnau a Chanllawiau Diogelu	17
1.	Ffuriau ar Gam-drin: Amddiffyn Plant	17
2.	Risg: Oedolion Agored i Niwed	18
3.	Beth i'w wneud os amheuir camdriniaeth neu os rhoddir gwybod amdano.	19
4.	Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â honiadau neu amheuron o gam-drin plant / oedolyn agored i niwed yn erbyn aelod o'r Brifysgol	20
5.	Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon posibl am gam-drin plant / oedolyn agored i niwed y tu allan i'r Brifysgol	21
6.	Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â sefydliadau allanol sy'n defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol	21
	ATODIAD 2 Ffurflen Dolen Gwe ar gyfer Achos Pryder	22
	ATODIAD 3 Gwybodaeth i reolwyr llinell unedau academiaidd a phroffesiynol ynghylch cyfrifoldebau diogelu	23
	ATODIAD 4 – Fforwm Diogelu'r Brifysgol	24
	ATODIAD 5 – Tîm Diogelu Arweiniol: Manylion Cyswllt	25
	ATODIAD 6 – Y Polisi trin gwybodaeth Tystysgrif DBS	26
	ATODIAD 7 - Polisi ar recriwtio cyn-droseddwyd yn aelodau staff	28

1. Cyflwyniad

(a) Datganiad Egwyddorion

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- Darparu amgylchedd diogel i'w holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr;
- Darparu amgylchedd sy'n ddiogel rhag niwed i'r rhai sydd o dan 18 oed;
- Cynnal hawliau plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed i gael eu hamddiffyn rhag niwed, yn rhydd rhag anaf ac i fod mewn amgylchedd diogel ac iach i weithio, astudio a byw ynddo.

(b) Nod

Nod y polisi hwn yw:

- Sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddiogelu rhag camdriniaeth neu niwed;
- Sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin.

(c) Rolau a Chyfrifoldebau Allweddol

Llywodraethu

- Cyngor y Brifysgol (y Corff Llywodraethol) sy'n gyfrifol yn y pen draw am y dull sefydliadol o ddiogelu, gan gynnwys cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Prevent.
- Mae Pwyllgor Academiaidd y Brifysgol, sef is-bwyllgor o'r Cyngor, yn cynnwys y canlynol yn ei gylch gorchwyl: 'Ystyriwch faterion sy'n ymwneud â phrofiad myfyrwyr, diogelu, yr amgylchedd dysgu, canlyniadau myfyrwyr a boddhad myfyrwyr.'
- Senedd y Brifysgol sy'n gyfrifol am gymeradwyo Polisi Diogelu'r Brifysgol. Mae'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr (is-bwyllgor o'r Senedd) yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan y Fforwm Diogelu. Mae'r Senedd yn ystyried materion polisi i'r Cyngor a'u cyfeirio atynt i'w hystyried a'u cymeradwyo.
- Mae Fforwm Diogelu'r Brifysgol yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu, monitro ac adolygu Polisi Diogelu'r Brifysgol yn flynyddol. Yn ogystal, mae'r Fforwm Diogelu yn goruchwyllo'r trefniadau gweithredol a gweinyddol perthnasol gan gynnwys gweinyddu gweithdrefnau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS); Mae Fforwm Diogelu'r Brifysgol yn adrodd i'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr.

Swyddogion Cyfrifol

- Fel Swyddog Atebol, yr Is-ganghellor sy'n gyfrifol yn y pen draw am drefniadau diogelu'r Brifysgol.
- Mae Uwch Dîm Arweiniol (UDA) y Brifysgol yn gyfrifol yn strategol am



ddiogelu ac yn cefnogi'r Swyddog Diogelu Arweiniol i sicrhau bod gan y trefniadau diogelu ymrwymiad yr uwch arweinwyr a'u bod yn cael eu hystyried a'u gweithredu fel blaenoriaeth. Mae'r Uwch Dîm Arweiniol yn monitro digwyddiadau diogelu difrifol ac yn adrodd i'r Corff Llywodraethol a chyrrff statudol eraill yn ôl yr angen.

- Mae Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol yn derbyn adroddiadau a diweddariadau perthnasol ar faterion polisi, materion a digwyddiadau diogelu. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaethau Proffesiynol yn cefnogi'r Swyddog Diogelu Arweiniol a'r Prif Swyddog Diogelu i sicrhau bod gan uwch swyddogion ymrwymiad i drefniadau diogelu a'u bod yn cael eu hystyried a'u gweithredu fel blaenoriaeth.
- Mae gan y Brifysgol Swyddog Diogelu Arweiniol, sef y Prif Swyddog Gweithredu ar hyn o bryd. Mae'n gweithredu'n arweinydd lefel gweithredol ar gyfer materion diogelu, gan gysylltu â'r UDA, y Cyngor (ac is-bwyllgorau perthnasol). Mae'r Swyddog Diogelu Arweiniol yn cadeirio'r Fforwm Diogelu.
- Mae'r Prif Swyddog Diogelu, sef y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr ar hyn o bryd, yn arwain ac yn cydlynu trefniadau diogelu gweithredol y Brifysgol. Mae'r Prif Swyddog Diogelu yn gweithio i gefnogi'r holl ddeiliaid rôl a enwir yn y polisi hwn i'w cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u datganoli i adrannau penodol.
- Mae gan y Brifysgol Dîm Diogelu Arweiniol, sy'n cynnwys y Swyddog Diogelu Arweiniol, y Prif Swyddog Diogelu, Swyddog Gweithredol (sy'n gyfrifol am hyfforddiant a datblygiad diogelu), y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol, y Dirprwy Is-ganghellor (Profiad Academaidd) a'r Swyddog Diogelwch Cymunedol. Mae'r tîm hwn o swyddogion yn gyfrifol am weithredu a hyrwyddo Polisi Diogelu'r Brifysgol a gweithdrefnau cysylltiedig. Ar sail ymarferol, bydd un o'r tîm hwn (neu ei enwebai) yn gwneud atgyfeiriadau diogelu ffurfiol i asiantaethau eraill, a bydd yn mynychu cyfarfodydd diogelu statudol ar ran y Brifysgol;
- Mae gan y Brifysgol rwydwaith o Swyddogion Diogelu Dynodedig sydd wedi'u hymgorffori ledled y Brifysgol mewn sefydliadau academaidd a gwasanaethau proffesiynol allweddol. Rôl graidd y Swyddogion Diogelu Dynodedig yw sicrhau bod trefniadau diogelu yn cael eu cymhwysu'n effeithiol yn eu sefydliad neu eu hadran. Yn ogystal, mae'r Swyddogion Diogelu Dynodedig yn derbyn ac yn adolygu pryderon a/neu honiadau o gam-drin, esgeulustod neu risg a amheuir ac yn eu huwchgysgu at y Tîm Diogelu Arweiniol ar gyfer penderfyniad a chatau gweithredu lle bo'n briodol.
- Mae rheolwyr llinell unedau academaidd a phroffesiynol yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn ymwybodol o Bolisi Diogelu'r Brifysgol a sicrhau y gweithredir y polisi'n briodol; Mae cyfrifoldebau rheolwyr llinell yn cynnwys sicrhau bod eu staff yn cwblhau'r modylau ar-lein gorfodol, gan gynnwys y 'hanfodion craidd diogelu' a'r cyrsiau 'Dyletswydd Prevent'.
- O ran gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, dylai'r



holl staff gadw at yr holl ofynion a gweithdrefnau cyfreithiol yn ogystal â rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gynhyrchir gan gyrff proffesiynol priodol.

Cyfrifoldebau Adrannol Datganoledig

- Mae cyfrifoldebau'r gofrestrfa yn cynnwys cynllunio a rheoli trefniadau recriwtio diogel a gweinyddu academiaidd ar gyfer myfyrwyr, gan gynnwys goruchwyllo a gwirio gweithdrefnau DBS ar gyfer myfyrwyr yn ogystal â gweithredu'r broses datgelu euogfarnau troseddol sy'n gysylltiedig â myfyrwyr (ar y cyd â Gwasanaethau Myfyrwyr). Ceisir datgeliadau manylach mewn perthynas â'r rolau hynny sy'n cynnwys gofalu am blant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed yn rheolaidd, eu hyfforddi, eu goruchwyllo neu fod â gofal llwyr drostynt;
- Mae cyfrifoldebau AD yn cynnwys cynllunio a rheoli trefniadau recriwtio priodol ar gyfer holl staff a Llywodraethwyr y Brifysgol, gan gynnwys goruchwyllo a gwirio gweithdrefnau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys gwirfoddolwyr a myfyrwyr sy'n ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn y Brifysgol. Ceisir datgeliadau manylach mewn perthynas â'r rolau hynny sy'n cynnwys gofalu am blant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed yn rheolaidd, eu hyfforddi, eu goruchwyllo neu fod â gofal llwyr drostynt;
- Mae cyfrifoldebau Gwasanaethau Myfyrwyr yn cynnwys darparu cyngor proffesiynol, arweiniad a gwasanaethau cymorth yn ddiogel i fyfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys brysennu llesiant ac uwchgyfeirio priodol, rheolaeth ddiogel a rhannu priodol o wybodaeth datgeliadau, darparu cymorth ariannol a bwrsariaethau, a darparu cyfeirio ac atgyfeirio drwy'r Hwb Myfyrwyr.
- Mae cyfrifoldebau Gwasanaethau Digidol yn cynnwys darparu rhwydwaith a gwasanaethau digidol diogel. Mae hyn yn cynnwys preifatrwydd defnyddwyr, diogelu rhag maleiswedd a bygythiadau digidol, yn ogystal â darparu sgiliau a chanllawiau digidol. Fel rhan o'u cyfrifoldebau, bydd Gwasanaethau Digidol yn sicrhau bod y Brifysgol yn cael ei diogelu rhag bygythiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ac yn gweithredu canllawiau Llywodraeth y DU.
- Mae cyfrifoldebau'r Swyddfa Academiaidd yn cynnwys darparu fframwaith achosion myfyrwyr diogel, gan gynnwys y polisïau fframwaith disgyblu a ffitrwydd i ymarfer a chymorth i astudio. Mae'r Swyddfa Academiaidd yn sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith ar gyfer myfyrwyr sy'n brentisiaid, gan gynnwys cysylltu â chyflogwyr yn ôl yr angen. Mae'r gyfarwyddiaeth yn goruchwyllo trefniadau ar gyfer partneriaethau cydweithredol, manylir ar y trefniadau hyn yn adran 1(d) o'r Polisi hwn.
- Mae cyfrifoldebau Ystadau a Chyfleusterau yn cynnwys darparu ystâd a chyfleusterau Brifysgol diogel, gan gynnwys mewn perthynas â gofynion y Ddyletswydd Diogelu. Mae'r cyfrifoldeb yn cynnwys sicrhau bod trefniadau ar waith i reoli risgiau iechyd, diogelwch eiddo a diogelwch personol yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ddiogelu benodol ar gyfer ymwelwyr sy'n defnyddio chyfleusterau chwaraeon a hamdden, a fydd yn

cynnwys plant. Mae'r adran yn darparu cymorth ymateb brys ar gyfer rhai digwyddiadau sy'n gysylltiedig â diogelu ac mae'n ganolog i ddull ymateb y tu allan i oriau'r brifysgol. Mae'r adran yn gyfrifol am gymhwyso mesurau diogelu priodol mewn perthynas â phreswylwyr ac ymwelwyr â llety preswyl y Brifysgol yn unol â chod ymarfer y DU.

- Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn gyfrifol am sicrhau bod ymchwil a wneir o fewn a chan y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion diogelu ac nad yw'n achosi unrhyw risg o niwed. Efallai y bydd hyn yn gofyn bod gweithdrefnau dilysu priodol yn cael eu cynnal ar gyfer unigolion penodol sy'n gwneud ymchwil gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed;
- Mae cyfrifoldebau Ehangu Mynediad yn cynnwys darparu prosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau diogel, wedi'u hanelu'n aml at gynulleidfaoedd o oedolion neu blant agored i niwed.
- Mae gan bob Athrofa Swyddog Diogelu Dynodedig sy'n gyfrifol am weithredu a hyrwyddo Polisi Diogelu'r Brifysgol a gweithdrefnau cysylltiedig;
- Fel corff annibynnol o'r Brifysgol, nid yw'r Polisi Diogelu hwn yn berthnasol yn uniongyrchol i Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant o ran dirprwyo cyfrifoldebau yn ffurfiol. Fodd bynnag, fel un o amodau cyllid grant y Brifysgol, disgwylir i Undeb y Myfyrwyr gynnal ei Polisi Diogelu sefydliadol ei hun. Fe'i hanogir i weithio mewn partneriaeth â strwythurau diogelu a gwasanaethau cymorth y Brifysgol, rhoi cyhoeddusrwydd iddynt a gwneud defnydd ohonynt, er mwyn darparu amgylchedd diogelu cydgysylltiedig, diogel a chyfannol i fyfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'r Brifysgol yn gwahodd Undeb y Myfyrwyr i gymryd rhan fel aelodau llawn o Fforwm Diogelu'r Brifysgol ac yn nodi y bydd gan ddau o'r swyddogion sabothol etholedig gyfrifoldebau diogelu ffurfiol o fewn strwythur y Brifysgol oherwydd eu rôl fel Llywodraethwyr etholedig.

(d) Cwmpas Polisi Diogelu'r Brifysgol

Mae Polisi'r Brifysgol yn gweithio yn unol â deddfwriaeth berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Mae deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru yn llywio gwaith diogelu'r Brifysgol gan gynnwys [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#), a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n cynnwys plant ac oedolion agored i niwed. Mae'r dull deddfwriaethol hwn yn adeiladu ar Ddeddf Plant (2004) sy'n cael ei hategu gan ganllawiau 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant' yn Lloegr. Mae deddfwriaeth ychwanegol yn Lloegr sy'n llywio'r polisi hwn yn cynnwys Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006). Er bod y fframwaith deddfwriaethol yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr, mae'r egwyddorion sylfaenol yn debyg.

Mae'r Polisi Diogelu hwn yn berthnasol i bob aelod o staff a gyflogir gan y Brifysgol. Yn ogystal, mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithgareddau a chyfleusterau'r Brifysgol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc o dan 18 oed, ac mae'n cynnwys:

- yr holl staff sy'n gweithio i'r Brifysgol;
- yr holl fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru yn y Brifysgol;
- gwirfoddolwyr yn cynnwys Aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgorau;

- gweithwyr contract sy'n gweithio ar ran y Brifysgol;
- yr holl amgylchiadau lle mae plant a/neu bobl ifanc yn bresennol yn adeiladau'r Brifysgol a/neu'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol;

Mae'r polisi hwn yn cynnwys lleoliadau ar y campws ac oddi arno (e.e. lleoliadau gwaith, ymarfer a dysgu seiliedig ar waith, rhaglenni cyfnewid a theithiau maes).

Mae'r polisi'n cwmpasu'r Brifysgol, ac mae gan y colegau cyfansoddol (Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion) eu polisïau diogelu eu hunain. Mae'r rhain yn adrodd i'r Fforwm Diogelu ac yn cael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd.

Bydd y gweithdrefnau canlynol yn berthnasol i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni astudio mewn sefydliadau partner cydweithredol:

Er na fyddai'r myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglenni partneriaethau cydweithredol yn atebol eu hunain i'r canllawiau mewn Polisi Diogelu, bydd y Brifysgol am sicrhau ei hun bod gan bartneriaid cydweithredol ganllawiau i gadw plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn ddiogel ac i ymateb i unrhyw bryderon.

- Yn ystod cam cymeradwyo partneriaethau cydweithredol, gofynnir i sefydliadau arfaethedig ddarparu eu polisïau Diogelu, fel rhan o'r Ddogfen Proffil Sefydliadol (y cyfeirir ati yn Atodiad CP4 o'r LIAA)
- Disgwylir y bydd sefydliadau partner trwy eu polisïau derbyn, yn rhoi ystyriaeth lawn a phriodol i ddeddfwriaeth gyfredol, gan gynnwys mewn perthynas ag euogfarnau troseddol, cyswllt â phlant neu oedolion agored i niwed (archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu gyfatebol). Yn ogystal dylai sefydliadau partner sicrhau y diweddarir gwybodaeth ymgeiswyr yn rheolaidd ar ôl eu derbyn ar y rhaglen, megis unrhyw newid i'w statws o ran euogfarnau troseddol. Amlinellir hyn yn y Llawlyfr Gweithrediadau Partneriaid Cydweithredol.
- Mae myfyrwyr partner cydweithredol sydd ar leoliad yn atebol i'r un protocolau â myfyrwyr sydd wedi cofrestru'n uniongyrchol gyda'r Brifysgol. Mae gan bartneriaid cydweithredol fynediad at Ganllawiau Asesu Risg Lleoliadau " (Atodiad PL1d o'r LIAA) sydd ag adran 'Ffactorau Diogelu'. Gofynnir i Sefydliadau Partner Cydweithredol gadarnhau bob blwyddyn i'r Brifysgol, trwy eu Hadroddiad(au) Monitro Blyneddol ar Raglenni Partneriaethau Cydweithredol (Atodiad PV11a o'r LIAA), a yw Protocol Lleoliad y Brifysgol wedi'i ddilyn.
- O ran Graddau Ymchwil Ôl-raddedig, mae myfyrwyr partneriaid cydweithredol yn atebol i'r un Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil â myfyrwyr sydd wedi cofrestru'n uniongyrchol gyda'r Brifysgol, ynghyd â'i pholisïau cysylltiedig, gan gynnwys Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil, Polisi Rheoli Data Ymchwil, Polisi Eiddo Deallusol, a'r Polisi Iechyd a Diogelwch. Ymdrinnir â'r holl brosesau cymeradwyo moeseg ar gyfer graddau ymchwil gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol. Mae'r Cyfarwyddwr Astudiaethau'n gyfrifol am sicrhau bod cais am gymeradwyaeth foesegol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil. Yn ogystal, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y myfyriwr yn ymwybodol o reoliadau'r Brifysgol ar gyfer graddau ymchwil ynghyd â rheoliadau a pholisïau ar gamymddwyn

academaidd, eiddo deallusol, iechyd a diogelwch, ac unrhyw faterion moesegol a allai godi yn ystod ymchwil myfyriwr.

- Yn ogystal, disgwylir y bydd unrhyw faterion diogelu sy'n dod i'r amlwg, mewn perthynas ag unrhyw agweddau ar bartneriaethau cydweithredol, yn cael eu hadrodd trwy'r Arweinwyr Tîm Partneriaeth (9.10.4, Pennod 9 o'r LIAA yn amlinellu rôl yr Arweinwyr Tîm Partneriaeth).

(e) Diffiniadau

At ddibenion y polisi hwn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

"Diogelu" - 'Mae asiantaethau (a sefydliadau) sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y risgiau o niwed i lesiant yr unigolyn yn cael eu cadw i isafswm; a 'Lle bo pryderon am les plant a phobl ifanc, dylai pob asiantaeth (a sefydliad) gymryd pob cam priodol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny, gan weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt, gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol eraill .' (Deddf Plant, 1989 a Chydadroddiad y Prif Arolygwyr ar Drefniadau Diogelu Plant, 2002).

- "Plentyn" – person o dan 18 oed (Deddf Plant, 1989)
- "Person ifanc" – plentyn dros 16 oed ond o dan 18 oed.
- "Oedolyn agored i Niwed" - unrhyw berson 18 oed a throsodd sydd angen neu a all fod angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran neu salwch ac sydd neu y gallai fod yn analluog i ofalu amdano ei hun neu ei amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu gamfanteisio difrifol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall unrhyw fyfyrwr fod yn agored i niwed, ac mai rôl Swyddogion Diogelu'r Brifysgol yw penderfynu a ystyrir bod myfyriwr yn agored i niwed.

2. Myfyrwyr o dan 18 oed

Mae gan y Brifysgol rai myfyrwyr sy'n cychwyn ar eu hastudiaethau cyn eu pen-blwydd yn 18 oed. Mae'r Brifysgol yn cydnabod:

- Bod unrhyw un o dan 18 oed, o safbwynt y gyfraith, yn blentyn.
- Bod gan y Brifysgol ddyletswyddau gofal arbennig tuag at blant.
- Nid yw'r Brifysgol yn gweithredu *in loco parentis*.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd myfyrwyr o dan 18 oed yn cael eu trin yn wahanol yn y rhan fwyaf o ffyrdd i fyfyrwyr 18 oed a throsodd. Bydd gan bob Athrofa diwtoriaid personol / blwyddyn enwebedig sy'n gyfrifol am les y myfyrwyr. Rheolwyr yr Athrofa fydd yn gyfrifol am sicrhau bod tiwtor personol / blwyddyn yn ei le i gefnogi unrhyw fyfyrwr o dan 18 oed a bod gwiriadau priodol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi eu cyflawni. Yn ogystal, disgwylir trefniadau priodol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr o dan 18 oed sydd wedi eu cofrestru ar raglenni tymor byr yn y Brifysgol (e.e. cyrsiau haf, gweithgareddau allgymorth ac ati).

Mae'r Gofrestrfa'n gyfrifol am sicrhau bod y Tiwtor Derbyn perthnasol, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr, Swyddogion Diogelu perthnasol ac Undeb Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant yn cael gwybod am gofrestriad unrhyw fyfyrwr o dan 18 oed.

Mae'n ofynnol i diwtoriaid personol/blwyddyn gyflwyno eu hunain i'r myfyriwr yn y cyfnod cynefino a chwrdd â'r myfyriwr yn rheolaidd i fonitro'i gynnydd a'i lesiant. Yn ogystal, bydd cymorth bugeiliol ar gael gan Undeb y Myfyrwyr a phan fo'n briodol, wardeniaid y neuaddau.

Rhaid i staff y Brifysgol fod yn ymwybodol bod cael perthynas â myfyriwr sydd dros 16 ond sydd o dan 18 oed yn erbyn y gyfraith a bod hyn yn groes i'r safle o ymddiriedaeth y gosodwyd yr aelod staff ynddo, fel y nodir yn Neddff Troseddau Rhywiol (Diwygio) 2000.

3. Polisïau a Gweithdrefnau Perthnasol y Brifysgol

- 3.1 Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol mewn perthynas â diogelu yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

Y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd

Polisi Defnydd Derbyniol (Technoleg a Systemau Gwybodaeth)

Polisi Derbyn

Gweithdrefnau diogelu data

Polisi disgyblu

Polisi Addasrwydd i Ymarfer

Polisi Cymorth i Astudio

Gweithdrefn Cwynion

Polisi Aflonyddu a Bwlio

Polisi Iechyd a Diogelwch

Polisi sy'n rheoli perthnasoedd proffesiynol yn y gweithle

Gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â Prevent

Polisi Recriwtio a Dethol

Polisi Aflonyddu a Bwlio Staff

Polisi Preifatrwydd Gwiriad DBS Safonol a Manwl

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Polisi Disgyblu Myfyrwyr (Camymddwyn Anacademaidd);

Protocol Marwolaeth Myfyrwyr

- 3.2 Mae gan y Brifysgol ofyniad cyfreithiol i sicrhau bod gweithdrefnau gwirio priodol yn cael eu cynnal ar gyfer staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed;

- 3.3 Pan fo'r swydd, y rôl neu'r gweithgarwch yn cynnwys mynediad sylweddol, heb oruchwyliaeth at blant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed dros gyfnod estynedig

neu'n rheolaidd, bydd y Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i staff neu fyfyrwyr ddatgelu unrhyw gofnodion troseddol a allai fod trwy gyflawni gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ar y lefel briodol, cyn unrhyw gysylltiad.

- 3.4 Cyn cychwyn unrhyw weithdrefnau ffurfiol, bydd y Brifysgol yn ystyried pa weithdrefn(au) yw'r rhai mwyaf priodol i'w defnyddio ynghylch unrhyw bryderon diogelu, gan gynnwys cyfeirio, o bosibl, at asiantaeth allanol briodol;
- 3.5 Yn aml, defnyddir gweithdrefnau diogelu ar y cyd â pholisi arall, e.e. y Polisi Disgyblu Myfyrwyr (camymddwyn anacademaidd) neu'r Polisi Addasrwydd i Astudio;
- 3.6 Pan cychwynnir gweithdrefnau ffurfiol, bydd y Brifysgol ar bob cam allweddol yn ailasesu pa weithdrefnau a ddefnyddir a gallai newid gweithdrefnau fel y bo'n briodol;
- 3.7 Gwneir addasiadau rhesymol fel y bo'n briodol ynghylch y broses ddiogelu ar gyfer myfyrwyr a staff sydd ag anableddau neu broblemau iechyd eraill.
- 3.8 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio pobl at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (ar ôl cwblhau prosesau disgyblu mewnol y Brifysgol) pan fyddant wedi gwneud niwed i blentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed, neu os oedd risg o niwed. Ni all unrhyw un sydd wedi ei wahardd gan y DBS weithio neu wirfoddoli gyda grŵp agored i niwed neu grwpiau y maent wedi eu gwahardd rhagddynt. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#) .

4. Diogelu a Prevent

- 4.1 Mae gan y Brifysgol ofyniad statudol i fodloni arweiniad y Dyletswydd Prevent o dan y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch (2015). Mae'r arweiniad hwn yn nodi ystod o feysydd lle disgwylir i brifysgolion gymryd camau i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Mae'r Brifysgol wedi datblygu amrywiaeth o ddogfennau sy'n ymwneud â Prevent, gan gynnwys nodyn arweiniad Prevent, Protocol Digwyddiadau Allanol a Siaradwyr a Phrotocol Ystafell Weddi ac Ystafell Dawel. Mae'r holl ddogfennau hyn wedi eu cynnwys yn yr atodiadau i'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd.
- 4.2 Mae'r Brifysgol wedi enwebu Swyddogion Arweiniol ar gyfer Prevent (Swyddog Cymunedau Mwy Diogel a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr) sy'n arwain ar ddatblygu a gweithredu gweithdrefnau Prevent a darparu hyfforddiant ynghylch Prevent. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn cael ei chynrychioli ar fforwm Prevent AU yn Ne Cymru sy'n cyfarfod pob tymor ac sy'n ffordd o rannu arfer gorau a lledaenu gwybodaeth. Mae'r Brifysgol yn cyflwyno dogfen sicrwydd flynyddol i CCAUC ar weithredu'r ddyletswydd Prevent.
- 4.3 Mae ymagwedd y Brifysgol at Prevent i'w gweld yn amlwg iawn yng nghyd - destun ei rôl ddiogelu wrth atal unigolion agored i niwed rhag cael eu denu i derfysgaeth.

5. Nodi a gweithredu ar bryderon neu amheuron o niwed

Mae gan bob aelod o staff, myfyriwr a gwirfoddolwr gyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw bryderon neu amheuron o niwed yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan y Ddeddf Plant (2004) a Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006).

- Os hoffai unrhyw aelod o staff, unrhyw fyfyrwr neu wirfoddolwr gael cyngor ynghylch unrhyw bryderon posibl, dylent siarad â'r Swyddog Diogelu Dynodedig adrannol perthnasol neu'r Prif Swyddog Diogelu.
- Os oes gan unrhyw aelod o staff, myfyriwr neu wirfoddolwr bryderon penodol yn ymwneud â diogelwch neu les plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed ar unrhyw raglen neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol, ar y campws neu oddi arno, dylent lenwi Ffurflen Achos Pryder drwy wefan Gwasanaethau Myfyrwyr gan ddarparu cymaint o fanylion â phosibl. Bydd hyn yn cael ei adolygu gan y tîm Brysbennu Llesiant ac yn cael ei uwchgyfeirio fel y bo'n briodol i'w ystyried gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr.
- Ymdrinnir ag unrhyw atgyfeiriadau, a phan fo angen, cânt eu hatgyfeirio ymlaen at yr asiantaethau statudol yn syth, ac o fewn 24 awr pryd bynnag y bo'n bosibl.
- Ymdrinnir â Datgeliadau oddi mewn i Wasanaeth Cwnsela'r Drindod Dewi Sant o dan y cod ymarfer proffesiynol perthnasol (Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi) ac os tybir bod angen hynny fe'u hatgyfeirir at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr;
- Yn unol â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1988, bydd y Brifysgol yn cefnogi ac yn amddiffyn y staff a'r myfyrwyr hynny sydd, yn ddidwyll a heb fwriad maleisus, yn mynegi amheuron am gamdriniaeth neu bryderon am gydweithwyr a'u gweithredoedd;
- Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ynghylch sut i weithredu pan fydd amheuron o gam-drin neu pan roddir gwybod amdano, yn Atodiad 1.

6. Hyfforddiant ac arweiniad

Mae'n hanfodol y rhoddir hyfforddiant i'r staff, myfyrwyr a'r gwirfoddolwyr perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â diogelu.

(a) Hyfforddiant

Bydd Fforwm Diogelu'r Brifysgol yn goruchwyllo hyfforddiant i gymuned y Brifysgol ynghylch materion diogelu. Yn ogystal, bydd y Fforwm Diogelu yn ystyried anghenion hyfforddi'n rheolaidd. Mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau priodol gan ddefnyddio ystod o adnoddau mewnol ac allanol, a gydlynir gan y Swyddog Gweithredol Diogelu. Mae modylau Diogelu a PREVENT ar - lein ar gael ar Hwb Datblygu Staff MyDay a disgwylir i bob aelod o staff eu cwblhau.

(b) Arweiniad

Gellir dod o hyd i'r polisi hwn a'r atodiadau cysylltiedig ar MyDay a gwefan y Brifysgol.

Atodiad 1 – Gweithdrefnau a Chanllawiau Diogelu

Atodiad 2 - Dolen We i Ffurflen Achos Pryder

Atodiad 3 - Gwybodaeth i reolwyr llinell unedau academiaidd a phroffesiynol ynghylch cyfrifoldebau diogelu

Atodiad 4 – Fforwm Diogelu'r Brifysgol

Atodiad 5 Swyddogion Diogelu Dynodedig: manylion cyswllt

Atodiad 6 Polisi trin gwybodaeth Tystysgrif DBS

Atodiad 7 Polisi ar recriwtio cyn-droseddwyr

7. Goblygiadau Adnoddau

Goblygiad	Manylion
Cyllid	Caiff y costau a fydd yn gysylltiedig â gweithredu'r polisi hwn eu cynnwys oddi mewn i gyfyngiadau cyllidebau cyfredol.
Staff	Nid oes unrhyw ofynion staff ychwanegol. Fodd bynnag, nodwyd anghenion hyfforddi ar gyfer staff priodol. Mae adnodd (hyfforddwr mewnol achrededig) wedi'i sefydlu i ddarparu unrhyw anghenion hyfforddi a nodir.
Asedau	Nid oes angen unrhyw asedau ychwanegol ar hyn o bryd.
Partneriaid	Mae cysylltu ag asiantaethau partner statudol yn hanfodol wrth amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.
Cyfnodau amser	Bydd y polisi yn cael ei weithredu yn unol â'i ddyddiad cymeradwyo.
Arweinyddiaeth	Mae'r polisi hwn yn cael ei arwain gan y Pro Is-Ganghellor

8. Asesu Effaith

Goblygiad	Effaith a Ystyriwyd (Do/Naddo)	Yr Effaith a Nodwyd
Cyfreithiol	D	Bydd y Brifysgol yn cydymffurfio â'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cynnwys: Deddf Plant 1989 Deddf Diogelu Data 1998 Deddf Diogelu Plant 1999 Dinasyddiaeth plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 2000 Deddf Terfysgaeth 2000 Deddf Plant 2004 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch Ffiniau 2019 Cynnal cofnodion cyfrinachol am achosion diogelu ac amddiffyn plant y rhoddir gwybod amdanynt a'r camau a gymerir
Cyfraniad at y Cynllun Strategol	D	Mae'r Polisi wrth wraidd Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd y Brifysgol a nodir yn y Cynllun Strategol.
Dadansoddi Risg	D	Nod y polisi yw amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Gall esgeuluso'r dyletswyddau hyn olygu bod perygl i unigolion gael niwed, ynghyd â niwed i enw da'r Brifysgol. â risg i enw da'r Brifysgol.
Cydraddoldeb	D	Ni nodwyd unrhyw oblygiadau negyddol. Bydd asesiad effaith cydraddoldeb llawn yn cael ei gynnal yn cael ei gynnal ar wahân a bydd yn cael ei gyflwyno i'r

		Fforwm Diogelu i'w ystyried.
Y Gymraeg	D	Caiff unigolion yr ymdrinnir â hwy o dan y Polisi hwn y dewis o gyfathrebu â'r Brifysgol yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu ysgrifenedig a llafar. Yn yr un modd er mwyn cefnogi dwyieithrwydd yn y Brifysgol, cynigir gwasanaethau cyfieithu i staff yn ystod sesiynau hyfforddi sy'n cefnogi'r Polisi hwn. Bydd y Polisi hwn yn cael ei gyfieithu ar ôl cael ei gymeradwyo'n derfynol.
Amgylcheddol a Chynaliadwyedd	D	Ni nodwyd unrhyw effaith niweidiol ar hyn o bryd.
Cyfathrebu/ Cyfryngau / Marchnata	D	Ar ôl cymeradwyo'r Polisi hwn yn derfynol, bydd staff yn cael gwybod am ei fodolaeth trwy'r bwletin staff. Cyhoeddir rhannau perthnasol o'r Polisi (h.y. ac eithrio rhannau sy'n groes i ddeddfwriaeth diogelu data) ar y fewnwyd, a phan fo'n briodol, trwy Gynllun Cyhoeddi'r Brifysgol. Mae cyfathrebu'n allweddol i'r gwaith o weithredu'r polisi hwn yn effeithiol.

Awdur(on) y polisi:

Y Tîm Diogelu Arweiniol: Pro Is-Ganghellor, y Swyddog Penodedig Arweiniol, Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr

9. Rheoli fersiynau'r ddogfen

Rhif y Fersiwn:	Rheswm dros newid:	Awdur:	Dyddiad y newid:
1.0	Ystyriaeth yn y Pwyllgor Materion Myfyrwyr (diwygiadau wedi'u gwneud yn dilyn cyfarfod y pwyllgor)	Dai Rogers	19.02.15
1.1	Ystyriaeth yng nghyfarfod yr UDRh (mân ddiwygiadau wedi eu gwneud yn dilyn cyfarfod yr UDRh)	Dai Rogers	03.03.15
1.2	Ystyriaeth yn y Senedd	Dai Rogers	11.03.15

	(mân ddiwygiadau i aelodaeth y Fforwm Diwygio)		
1.3	Wedi ei Ychwanegu at Dimpled y Polisi	Claire Godden	07.04.15
1.4	Ymgorffori diwygiadau y gofynnwyd amdanynt ym Mhwyllgor Adnoddau'r Cyngor	Dai Rogers	30.04.15
2.0	Newid o ran Rheoli eoli Fersiynau Dogfennau yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor ar 21.05.15	Claire Godden	09.05.15
2.1	Diweddarwyd	Dai Rogers	08.05.17
3.0	Diweddarwyd / ailysgrifennwyd	Dai Rogers Rogers (gyda'r Tîm Diogelu Arweiniol)	25.11.17
3.1	Diweddarwyd yn dilyn cyfarfodo'r Fforwm Diogelu ar 7.12.17	Dai Rogers	03.01.18
3.2	Diweddarwyd yn dilyn cyfarfod y Fforwm Diogelu ar 25.11.19	Dai Rogers Sioned Saer Catharine Bleasdale	10.12.19
3.3	Diweddarwyd yn dilyn cyfarfod y Fforwm Diogelu ar 20.01.20 a sylwadau a dderbyniwyd gan y Cadeirydd.	Dai Rogers	27.01.20
3.4	Diweddarwyd Rhagfyr 20	Rhys Dart Catharine Bleasdale	17.12.20
3.5	Diweddarwyd Ionawr 21 yn dilyn cyfarfod y Fforwm Diogelu Ionawr 21	Rhys Dart	26.01.2021
3.6	Diweddarwyd cyn Fforwm Diogelu Ionawr 23	Rhys Dart Natalie Owens	13.12.2022
3.7	Diwygiadau polisi, swyddogion newydd a enwebwyd a chanllawiau wedi'u diweddarau	Rhys Dart	04.06.2024

Statws presennol y Polisi: Fersiwn 3.7 i'w basio drwy'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr

Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: AU

Dyddiad ei gadarnhau: I'w gadarnhau

Dyddiad y daw i rym

Dyddiad adolygu'r polisi:
Mai 2025

ATODIAD 1 – Gweithdrefnau a Chanllawiau Diogelu

1. Ffuriau ar Gam-drin: Amddiffyn Plant

O ran **amddiffyn plant**, mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r diffiniad o niwed a amlinellir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru. Daw'r diffiniad hwn o ddeddfwriaeth Cymru ond caiff ei fabwysiadu ar draws holl safleoedd a gweithgareddau'r Brifysgol, gan gynnwys y tu allan i Gymru.

Diffinnir niwed fel:

- camdriniaeth - mae hyn yn cynnwys cam-drin rhywiol, esgeulustod, cam-drin emosiynol a cham-drin seicolegol
- amharu ar iechyd corfforol neu feddyliol (gan gynnwys y sawl a ddioddefodd o weld neu glywed rhywun arall yn dioddef triniaeth wael).
- amhariad ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol (gan gynnwys y rheini a ddioddefodd o weld neu glywed rhywun arall yn dioddef triniaeth wael).

Mae mathau o niwed yn cynnwys:

1.1 Cam-drin Corfforol

Mae hyn yn cynnwys niwed corfforol bwriadol i blant. Mae'n cynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwasgu, llosgi a chnoi, yn ogystal â rhoi alcohol, cyffuriau amhriodol neu sylweddau gwenwynig i blant. Mae hefyd yn cynnwys ymgais i fygu neu foddï a ffugio symptomau salwch. Nid yw ataliad gorfforol resymol i atal plentyn rhag niweidio ei hun, person arall, neu rhag achosi difrod difrifol i eiddo yn cael ei ystyried yn gam-drin.

1.2 Cam-drin Rhywiol

Mae hyn yn cynnwys gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, pa un a yw'r plentyn yn ymwybodol ai peidio o beth sy'n digwydd ac sy'n cynnwys oedolion yn defnyddio plant – boed yn fechgyn neu'n ferched – i ddiwallu eu hanghenion rhywiol eu hunain. Gallai hyn gynnwys gweithgaredd rhywiol uniongyrchol, gweithredoedd treiddiol neu anrheiddiol, mastyrbio, tynnu ffotograffau neu fideos anwedus, neu ddangos deunydd pornograffig i blant neu eu hannog i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol o safbwynt rhywiol.

1.3 Esgeulustod

Mae hyn yn golygu methu â diwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol plentyn a'r canlyniad tebygol fydd amharu'n ddifrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gallai gynnwys methu â darparu bwyd, gwres, dillad, cariad, tynerwch, sylw a chydabyddiaeth, neu fethu ag amddiffyn plentyn rhag niwed corfforol neu berygl, neu fethu â sicrhau ei fod yn cael gofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hyn hefyd gynnwys cam-drin ariannol.

1.4 Cam-drin Emosiynol

Mae hyn yn cynnwys golygu cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus mewn modd sy'n achosi effaith ddifrifol ac andwyol ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Yn ogystal â diffyg cariad a sylw parhaus, mae hyn yn cynnwys beirniadaeth barhaus, bygythiadau a geiriau a gweithredoedd sy'n bychanu'r plentyn. O fewn cyd - destun Prifysgol, gall gynnwys diffrïo gwaith neu allu plentyn yn barhaus. Gallai gynnwys cyfleu i'r plentyn ei fod yn ddiwerth neu nad oes neb yn ei garu, ei fod yn annigonol neu'n werthfawr yn unig i'r graddau y mae'n diwallu anghenion person arall. Gallai gynnwys achosi plentyn i deimlo'n ofnus neu mewn perygl, neu ecsbloetio neu lygru plant. Mae rhywfaint o gam-drin emosiynol yn perthyn i bob math o gam-drin plant, ond gall hefyd digwydd ar ei ben ei hun.

1.5 Bwlio

Ymddygiad niweidiol, bwriadol yw hwn, sy'n digwydd fel arfer dro ar ôl tro dros gyfnod o amser pan fo'n anodd i'r rhai sy'n cael eu bwlio eu hamddiffyn eu hunain. Gall y bwlio ddigwydd ar lafar, yn ysgrifenedig neu'n gorfforol.

1.6 Gwir niwed neu niwed posibl

Gall risg o wir niwed neu niwed posibl i blentyn neu berson ifanc hefyd ddeillio o:

- Gamfanteisio troseddol fel 'llinellau cyffuriau' (CCE)
- Camfanteisio'n rhywiol ar blant
- Radicaleiddio
- Anffurfio organau cenhedlu benywod
- Caethwasiaeth fodern
- Cam-drin ar-lein
- Cam-drin oedolyn agored i niwed yn ariannol;
- Priodas dan orfod;
- Radicaleiddio / oedolion agored i niwed sy'n cael eu denu i derfysgaeth.

2. Risg: Oedolion Agored i Niwed

Mewn perthynas â diogelu oedolion agored i niwed mae'r diffiniad canlynol o "mewn perygl" wedi'i amlinellu yn [Ngweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru a'i gymryd o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#). Daw'r diffiniad hwn o ddeddfwriaeth Cymru ond caiff ei fabwysiadu ar draws holl safleoedd a gweithgareddau'r Brifysgol, gan gynnwys y tu allan i Gymru.

Mae S126 (1) [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\)](#) yn diffinio [oedolyn sy'n wynebu risg](#) fel oedolyn:

- 2.1 Sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso,
- 2.2 Sydd ag anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
- 2.3 O ganlyniad i'r anghenion hynny, ni all amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso
- 2.4 Gall cam-drin fod yn gorfforol, yn rhywiol, yn seicolegol, yn emosiynol neu'n ariannol. Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw leoliad, boed mewn anheddiad breifat, sefydliad neu unrhyw le arall.
- 2.5 Mae esgeulustod yn disgrifio methiant i fodloni anghenion sylfaenol person: corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant neu iechyd yr unigolyn. Gall esgeulustod ddigwydd mewn unrhyw leoliad, boed mewn anheddiad breifat, sefydliad neu unrhyw le arall.
- 2.6 Ymddygiadau sy'n cynyddu'r risg o esgeulustod a/neu gam-drin
Gallai'r ymddygiadau canlynol roi'r oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso:
 - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu menywod.
 - Cam-drin domestig a thrais
 - Caethwasiaeth fodern
 - Camfanteisio troseddol

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

3. Beth i'w wneud os amheuir camdriniaeth neu os rhoddir gwybod amdano.

3.1 Nid yw'n hawdd cydnabod cam - drin mewn plant ac oedolion agored i niwed bob tro ac mae'r Brifysgol yn cydnabod nad yw ei staff yn brofiadol yn y maes hwn ac ni fyddant yn gwybod yn hawdd a yw cam-drin yn digwydd ai peidio. Yn wir, nid lle aelodau'r Brifysgol yw dod i farn yn hyn o beth.

Fodd bynnag, cyfrifoldeb holl staff y Brifysgol yw:

- bod yn wiliadwrs o arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod.
- cael mynediad at Weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru a chydymffurfio â nhw.
- cymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol a briffiadau a baratoir gan y Brifysgol.
- deall sut i godi materion a rhoi gwybod am bryderon.
- rhoi wybod am bryderon a datgeliadau o ran diogelu gan ddefnyddio'r protocolau sefydledig a amlinellir yn y Polisi hwn.
- gweithredu ar bryderon er mwyn diogelu llesiant yr unigolyn.

3.2 Os hoffai aelodau o'r brifysgol gael cyngor ynghylch unrhyw bryderon posibl, dylent gysylltu naill ai ag aelod adrannol perthnasol o'r Fforwm Diogelu, Swyddog Diogelu Dynodedig, aelod o'r Tîm Diogelu Arweiniol, y Swyddog Diogelu Egwyddorion, neu'r Swyddog Diogelu Arweiniol.

Os bydd gan unrhyw aelod o staff, myfyriwr neu wirfoddolwr bryderon penodol ynghylch diogelwch neu les plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed ar unrhyw raglen neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol, ar y campws neu oddi arno, dylent lenwi Ffurflen Achos pryder trwy wefan Gwasanaethau Myfyrwyr gan ddarparu cymaint o fanylion â phosibl. Bydd hyn yn cael ei adolygu gan y tîm brysbennu Llesiant a'i uwchgyfeirio fel y bo'n briodol i'w ystyried gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr. Os yw'r pryderon hynny'n ymwneud â rhywun yn y tîm diogelu arweiniol, dylid cysylltu ag aelod arall o'r tîm diogelu.

3.3 Dylid gwneud pob ymdrech i gynnal cyfrinachedd yn unol â deddfwriaeth diogelu. Ni ddylid trafod amheuron ag unrhyw un arall ar y campws heblaw'r rhai a enwebir uchod.

3.4 Cyfrifoldeb y Tîm Diogelu Arweiniol yw gweithredu ar ran y Brifysgol wrth ymdrin â honiadau neu amheuron o gam-drin neu esgeuluso. Bydd hyn yn cynnwys casglu manylion yr honiad neu'r amheuaeth a chyfeirio'r mater at yr awdurdodau statudol priodol. Cyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu, nid y Brifysgol yw ymchwilio i faterion ynghylch amddiffyn plant.

3.5 Ni ddylai aelodau'r Brifysgol o dan unrhyw amgylchiadau gynnal eu hymchwiliadau eu hunan i amheuron neu honiadau o gam-drin sy'n ymwneud â phlant, ac ni ddylent holi plant yn agos, gan y gallai gwneud hynny wyrddroi unrhyw ymchwiliad y gellir ei gynnal maes o law gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu.

3.6 Os bydd plentyn neu oedolyn bregus yn dweud rhywbeth neu'n gweithredu mewn modd sy'n creu amheuaeth o gam-drin, dylai'r person sy'n derbyn yr wybodaeth:

- Ymateb yn bwylllog ond yn bryderus.
- Dweud wrth y plentyn/oedolyn agored i niwed ei fod yn iawn i rannu'r hyn sydd wedi digwydd; ac nad yw'n gyfrifol am yr hyn sydd wedi digwydd.
- Dod o hyd i gyfle cynnar i esbonio ei bod yn debygol y bydd angen rhannu'r wybodaeth – peidiwch ag addo cadw cyfrinachau.
- Cymryd yr hyn a ddywedir o ddifrif a gadael i'r unigolyn adrodd barhau ar ei gyflymder ei hun.
- Gofyn cyn lleied o gwestiynau ag y bo modd, a dim ond er mwyn egluro'r hyn sydd gan yr unigolyn sy'n adrodd i'w ddweud; peidiwch â chroesholi. Peidiwch â gofyn cwestiwn sy'n awgrymu ateb penodol.
- Peidiwch â thorri ar draws yr unigolyn sy'n adrodd pan fydd yn adalw digwyddiadau

arwyddocaol.

- Sicrhau'r unigolyn sy'n adrodd fod modd ymdrin â'r broblem.
- Dweud wrth yr unigolyn sy'n adrodd beth y byddwch chi'n ei wneud nesaf a gyda phwy y bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu. Dwedwch na allwch addo cadw cyfrinachau.
- Gwneud cofnod llawn o'r hyn a ddwedir ac a wneir, er na ddylai hyn achosi oedi cyn rhoi gwybod am y broblem.

3.7 Dylai'r cofnod gynnwys:

- Cofnod air am air o'r datgeliad. Gellir defnyddio hyn yn ddiweddarach mewn achos troseddol ac mae'n hanfodol bod yr hyn a ddatgelir yn cael ei gofnodi mor gywir â phosibl. Felly, rhaid i'r cofnod gael ei ddrafftio yng ngeiriau'r unigolyn sy'n adrodd ac ni ddylai gynnwys rhagdybiaethau neu farn pobl eraill;
- Natur yr honiad neu'r pryder;
- Disgrifiad o unrhyw anaf corfforol gweladwy (ni ddylid diosg dillad i archwilio'r plentyn). Ni ddylai plant / oedolion agored i niwed gael eu harchwilio'n feddygol gan aelod o'r Brifysgol;
- Disgrifiad yr unigolyn o'r hyn sydd wedi digwydd;
- Unrhyw ddyddiadau, amseroedd ac unrhyw wybodaeth ddefnyddiol bosibl arall.

3.8 Dylid rhoi gwybod am y broblem ar unwaith gan ddefnyddio'r Ffurflen Achos pryder ar wefan Gwasanaethau Myfyrwyr. Bydd hyn yn cael ei brysennu gan y tîm Llesiant a'i uwchgyfeirio lle bo'n briodol. Os yw person mewn perygl uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999. Disgwylir i'r Brifysgol gael ei hysbysu cyn gynted â phosibl fel y gellir cwblhau atgyfeiriad diogelu ffurfiol. Gellir gofyn am wybodaeth a chynghor gan asiantaethau allanol eraill lle bo angen. Gellir dod o hyd i fanylion sefydliadau o'r fath yn yr adran Diogelu ar wefan Gwasanaethau Myfyrwyr.

3.9 Cydnabyddir y gall fod angen cymorth ar staff ar ôl cael datgeliad gan blentyn/oedolyn agored i niwed a chynigir cwnsela priodol gan y Brifysgol.

3.10 Fel y nodwyd yn 3.4 uchod, dylid cyfeirio pryderon amddiffyn plant at yr awdurdodau priodol (gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu) i'w harchwilio. Os mai myfyrwyr yw'r unigolion dan sylw, yna dylid hysbysu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr. Yn yr un modd, os mai aelodau o staff yw'r unigolion dan sylw, dylid hysbysu Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol.

4. Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â honiadau neu amheuon o gam-drin plant / oedolyn agored i niwed yn erbyn aelod o'r Brifysgol

4.1 Mae'r Brifysgol yn cymryd pob honiad o ddifrif. Pan fydd pryder yn codi ynghylch cam-drin plentyn, mae tair proses y gallai fod angen iddynt ddigwydd. Y rhain yw:

- Ymchwiliad diogelu.
- Ymchwiliad troseddol.
- Gweithredu gan y Brifysgol i ddisgyblu aelod o'r Brifysgol.

4.2 Mae'n bwysig cydlynu'r rhain yn gywir a rheolir digwyddiadau yn y drefn iawn. Am y rheswm hwn, fel arfer ni fydd y Brifysgol yn cymryd camau uniongyrchol yn erbyn aelod o'r Brifysgol heb gyngor a chytundeb asiantaethau ymchwiliol (e.e. yr Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol), ac eithrio pan fo angen y camau hyn i amddiffyn plentyn / oedolyn agored i niwed.

4.3 Beth bynnag yw canlyniadau ymchwiliadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu, gallai'r Brifysgol ystyried gwaharddiad a/neu gamau disgyblu yn unol â'i weithdrefnau disgyblu.

5. Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon posibl am gam-drin plant / oedolyn agored i niwed y tu allan i'r Brifysgol

- 5.1 O ganlyniad i'w cysylltiad â phlentyn / oedolyn agored i niwed yn y Brifysgol neu ar fusnes y Brifysgol, gallai aelodau'r Brifysgol gael pryderon am les y plentyn / oedolyn agored i niwed a gallent gael pryderon bod y plentyn / oedolyn bregus yn cael ei gam-drin gan rywun sydd heb gysylltiad â'r Brifysgol, neu gan aelod o'r Brifysgol mewn cyswllt preifat. O dan yr amgylchiadau hyn dylai'r unigolyn roi gwybod am eu pryderon i'r un o'r Swyddogion Diogelu fel y'u nodir yn 2.1 uchod.

6. Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â sefydliadau allanol sy'n defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol

- 6.1 Caiff llawer o gyfleusterau, yn enwedig cyfleusterau chwaraeon, y Brifysgol, eu llogi gan sefydliadau allanol, gan gynnwys clybiau plant ac o dan y trefniadau hyn, nid oes gan y Brifysgol reolaeth, ac nid yw'n derbyn unrhyw atebolrwydd, dros ymddygiad unigolion o'r sefydliadau hyn. Fodd bynnag, hoffai'r Brifysgol sicrhau, cyhyd ag y bo modd, nad yw'r sefydliadau hyn yn cam-drin plant a bod modd iddynt ymdrin ag unrhyw ddatgeliadau'n briodol.
- 6.2 O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd plentyn sydd ar y campws oherwydd sefydliad allanol yn gwneud honiad o gam-drin i aelod o'r Brifysgol am oedolyn sy'n aelod o'r sefydliad allanol hwnnw. Yn y sefyllfa hon, bydd yr aelod o'r Brifysgol yn rhoi gwybod am yr honiad i'r sefydliad allanol ac yn hysbysu ei reolwr llinell, y Swyddog Diogelu neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr am yr hyn y maent wedi'i wneud. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r sefydliad ddilyn ei bolisi diogelu ei hun a bydd angen cadarnhad bod y camau priodol wedi'u cymryd. Yn ogystal, bydd y PIGC (Profiad Academaidd), ar y cyd ag Uwch Gyfarwyddiaeth y Brifysgol, yn ystyried a yw'n iawn gadael i sefydliad allanol barhau i ddefnyddio cyfleusterau'r Brifysgol yn ystod y cyfnod ymchwilio a thu hwnt.

ATODIAD 2 Ffurflen Dolen Gwe ar gyfer Achos Pryder

Gellir dod o hyd i'r dolenni uniongyrchol i ffurflen ddigidol Achos Pryder y Brifysgol isod:

Cymraeg <https://live.uniticms.com/uwtsd/register/?form=welfare>

Cymraeg <https://live.uniticms.com/uwtsd/register/?form=welfare>

ATODIAD 3 Gwybodaeth i reolwyr llinell unedau academiaidd a phroffesiynol ynghylch cyfrifoldebau diogelu

Mae rheolwyr llinell unedau academiaidd a phroffesiynol yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o Bolisi Diogelu'r Brifysgol a sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n briodol;
- Sicrhau y caiff unrhyw raglen neu weithgaredd sy'n cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed asesiad risg, ac y caiff ei chynllunio, ei threfnu a'i darparu, (gan gynnwys nodi'n agored unrhyw faterion diogelu plant), mewn modd sy'n gyson â'r Polisi Diogelu;
- Sicrhau y sefydlir trefniadau i nodi plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed sy'n perthyn i'w cylch cyfrifoldeb a sicrhau y sefydlir trefniadau digonol i sicrhau yr hysbysir yr aelodau staff priodol;
- Sicrhau bod yr holl swyddi staff sy'n cynnwys mynediad sylweddol heb oruchwyliaeth at blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed wedi eu nodi ac y cyflawnir y gweithdrefnau gwirio statudol perthnasol (megis gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS));
- Sicrhau bod y rhaglenni gradd a'r modylau a ddarperir ganddynt yn cael eu hasesu er mwyn nodi unrhyw gysylltiad sylweddol heb oruchwyliaeth â phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, ac os nodir cysylltiad o'r fath, bod gofyniad manyleb y rhaglen a'r modwl yn nodi'n eglur yr angen am weithdrefnau gwirio (megis gwiriadau DBS);
- Sicrhau bod staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud ag unrhyw raglen neu weithgaredd sy'n cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed wedi'u hyfforddi'n briodol;
- Rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Dynodedig perthnasol am fesurau diogelu penodol ar gyfer y rhaglen neu'r gweithgarwch, gan gynnwys, lle bo'n briodol, enw unrhyw berson a benodir ar gyfer y mesurau diogelu hynny;
- Wrth lunio unrhyw bartneriaethau cydweithredol, sicrhau bod gofynion Polisi Diogelu'r Brifysgol wedi eu cynnwys a'u hadlewyrchu yn y ddogfennaeth berthnasol;
- Sicrhau bod gweithdrefnau addas yn eu lle sy'n awdurdodi, neu fel arall, aelodau staff a myfyrwyr i ddod â phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed i mewn i eiddo'r Brifysgol;
- Sicrhau bod staff yn adrodd yn briodol ar faterion diogelu drwy'r llwybr cywir (y ffurflen achos pryder), ac nad ydynt yn gweithio y tu allan i gwmpas eu rôl, eu cylch gwaith a'u harbenigedd.
- Dylai unrhyw Athrofeydd, Disgyblaethau neu Wasanaethau Proffesiynol sy'n derbyn plant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed ar brofiad gwaith llynu wrth ofynion polisiâu perthnasol y Brifysgol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag lechyd a Diogelwch a Defnydd Derbyniol TG.

ATODIAD 4 – Fforwm Diogelu'r Brifysgol

Mae Fforwm Diogelu'r Brifysgol yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu, monitro ac adolygu Polisi Diogelu'r Brifysgol yn flynyddol. Yn ogystal, mae'r Fforwm Diogelu yn goruchwyllo'r trefniadau gweithredol a gweinyddol perthnasol gan gynnwys gweinyddu gweithdrefnau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae Fforwm Diogelu'r Brifysgol yn adrodd i'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr.

Cylch Gorchwyl:

- (1) Sicrhau effeithiolrwydd y gweithdrefnau diogelu ar draws y Brifysgol;
- (2) Datblygu, gweithredu, monitro a chynnal adolygiad blynyddol ar Bolisi Diogelu'r Brifysgol;
- (3) Goruchwyllo'r trefniadau gweithredol a gweinyddol perthnasol gan gynnwys gweinyddu gweithdrefnau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS);
- (4) Nodi ac adolygu anghenion hyfforddi'r Brifysgol ynghylch diogelu;
- (5) Goruchwyllo'r gwaith o ddarparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant i gymuned y Brifysgol mewn materion sy'n ymwneud â diogelu;
- (6) Bydd y Brifysgol hefyd yn cydweithio â phartneriaethau ac asiantaethau perthnasol er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion diogelu.

Aelodaeth:

Cadeirydd, a benodir gan Senedd
Swyddog Diogelu Arweiniol (PSO)
Pro Is-Ganghellor
Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Swyddog Gweithredol
Swyddog Cymunedau Mwy Diogel
Rheolwr Cyngor Llesiant
Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa
Swyddog Diogelu Dynodedig o bob Athrofa
Swyddog Diogelu Dynodedig o bob adran a enwebir
Cynrychiolydd o'r Uned Brentisiaeth
Un cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr a enwebir gan
Undeb y Myfyrwyr Un cynrychiolydd Addysg Bellach o'r
colegau cyfansoddol
Sylwedydd: aelod o staff Undeb y Myfyrwyr, a enwebir gan
Brif Swyddog Gweithredol Undeb y Myfyrwyr
Bydd y Cadeirydd yn ymestyn aelodaeth i gynnwys cynrychiolwyr ychwanegol ac allanol yn ôl yr
angen

ATODIAD 5 – Tîm Diogelu Arweiniol: Manylion Cyswllt

Swyddog Dynodedig Arweiniol: Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu,
Prif Swyddog Diogelu: Rhys Dart, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr r.dart@uwtsd.ac.uk
Pro Is-Ganghellor: Yr Athro Mirjam Plantinga m.plantinga@uwtsd.ac.uk
Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol: Jane O'Rourke: J.ORourke@uwtsd.ac.uk
Swyddog Gweithredol Diogelu: Natalie Owens n.owens@uwtsd.ac.uk
Swyddog Cymunedau Mwy Diogel: Cerys Curtis c.curtis@uwtsd.ac.uk

Swyddogion Diogelu Dynodedig:

Uned Brentisiaeth: Martin Locock m.locock@uwtsd.ac.uk
Adnoddau Dynol: Sarah John sarah.john@uwtsd.ac.uk (Amy Jones
amy.jones@uwtsd.ac.uk eilydd dynodedig)
Gwasanaethau Digidol: Paris Bonfield paris.bonfield@uwtsd.ac.uk
Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu: Samantha Brinkworth s.brinkworth@uwtsd.ac.uk
Gweithrediadau: Kelly Williams k.williams@uwtsd.ac.uk
Y Gofrestrfa, Carol Davies c.a.dfavies@uwtsd.ac.uk (Sarah McIntyre
sarah.mcintyre@uwtsd.ac.uk eilydd dynodedig)
Academi Fyd-eang Cymru: Gruffydd Owen g.owen@uwtsd.ac.uk
Ehangu mynediad Samantha Bowen s.bowen@uwtsd.ac.uk
WISA: Dr Mark Cocks mark.cocks@uwtsd.ac.uk
IICL: Shervjeet Garcha s.garcha@uwtsd.ac.uk
IEH: Dr Angus Slater a.slater@uwtsd.ac.uk
IEH (Addysgu): Laurence Thomas Laurence.thomas@uwtsd.ac.uk
IMH: Gareth W. Jones Gareth.wyn.jones@uwtsd.ac.uk

ATODIAD 6 – Y Polisi trin gwybodaeth Tystysgrif DBS

Egwyddorion cyffredinol

Fel sefydliad sy'n defnyddio gwasanaeth gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr am swyddi o ymddiriedaeth, mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cydymffurfio'n llawn â'r cod ymarfer ynghylch trafod, defnyddio, storio, cadw a gwaredu'n gywir dystysgrifau a gwybodaeth tystysgrifau.

Mae hefyd yn cydymffurfio'n llawn â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth berthnasol arall ynghylch trafod, defnyddio, storio, cadw a gwaredu gwybodaeth tystysgrifau'n ddiogel ac mae ganddi bolisi ysgrifenedig ar y materion hyn, sydd ar gael i'r rhai sydd am ei weld ar gais.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi gweithredu proses wirio ar-lein gyda darparwr allanol (GBG). Mae hyn bellach yn berthnasol ym mhob achos, ac eithrio'r cyrsiau hynny y nodir bod angen gwiriad DBS ar eu cyfer ar ôl dechrau ar y cwrs. Yn y nifer fach o achosion lle mae hyn yn berthnasol, cynhelir gwiriad DBS papur, yn unol â chais Adnoddau Dynol.

Storio a mynediad

Dylid cadw gwybodaeth tystysgrifau'n ddiogel, mewn cynwysyddion storio, dan glo, nad oes modd eu cludo a'r mynediad atynt wedi ei reoli'n gaeth ac yn gyfyngedig i'r rhai y mae ganddynt hawl i'w weld yn rhan o'u dyletswyddau.

Trin

Yn unol ag adran 124 o Ddeddf Heddlu 1997; ni chaiff gwybodaeth tystysgrifau ei throsglwyddo ond i'r rhai y mae ganddynt hawl i'w derbyn yn ystod eu dyletswyddau. Rydym yn cadw cofnod o bawb y datgelwyd tystysgrifau neu wybodaeth am dystysgrifau iddynt ac mae'n drosedd trosglwyddo'r wybodaeth hon i unrhyw un nad oes ganddo hawl i'w derbyn.

Sylwer: gall y cartrefi gofal cofrestredig hynny sy'n cael eu harolygu gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CAG), y sefydliadau hynny sy'n cael eu harolygu gan Ofsted a'r sefydliadau hynny sy'n cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) gadw'r dystysgrif tan yr arolygiad nesaf.

Unwaith y bydd yr arolygiad wedi ei gynnal, dylid difa'r dystysgrif yn unol â'r [cod ymarfer](#).

Defnydd

Defnyddir gwybodaeth tystysgrif yn unig at y diben penodol y gwnaed cais ar ei gyfer a rhaid rhoi cydsyniad llawn yr ymgeisydd ar gyfer hyn.

Cadw

Unwaith y bydd penderfyniad recriwtio (neu benderfyniad perthnasol arall) wedi ei wneud, ni fyddwn yn cadw gwybodaeth tystysgrif yn hwy nag y bydd angen. Mae hyn fel arfer am gyfnod o hyd at chwe mis, er mwyn caniatáu i unrhyw anghydfod neu gwynion gael eu hystyried a'u datrys.

Os bernir, o dan amgylchiadau eithriadol iawn, bod angen cadw gwybodaeth tystysgrif yn hwy na chwe mis, byddwn yn ymgynghori â'r DBS am hyn ac yn rhoi ystyriaeth lawn i Hawliau Ddiogelu Data a Hawliau Dynol yr unigolyn cyn gwneud hynny.

Trwy gydol yr amser hwn, bydd yr amodau arferol o ran storio diogel a mynediad a reolir yn llym mewn grym.

Gwaredu

Unwaith y bydd y cyfnod cadw wedi dod i ben, byddwn yn sicrhau y caiff unrhyw wybodaeth ar dystysgrif DBS ei difa'n ddi-oed trwy ddulliau diogel, er enghraifft, trwy rwygo, pwlpio neu losgi. Wrth aros i gael ei dinistrio, ni fydd gwybodaeth am dystysgrifau yn cael ei chadw mewn unrhyw gynhwysydd anniogel (e.e. bin gwastraff neu sach wastraff gyfrinachol).

Ni fyddwn yn cadw unrhyw lungopi neu ddelwedd arall o'r dystysgrif nac unrhyw gopi neu gynrychioliad o gynnwys tystysgrif. Fodd bynnag, er gwaethaf yr uchod, mae'n bosibl y byddwn yn cadw cofnod o ddyddiad cyhoeddi'r dystysgrif, enw'r deiliad, y math o dystysgrif y gwnaed cais amdani, y swydd y gwnaed y cais am dystysgrif ar ei chyfer, cyfeirnod unigryw'r dystysgrifau a manylion y penderfyniad recriwtio a wnaed.

Gweithredu fel corff ymbarél

Cyn gweithredu fel corff ambarél (sef corff cofrestredig sy'n cydarwyddo ceisiadau ac sy'n derbyn gwybodaeth tystysgrif ar ran cyflogwyr neu sefydliadau recriwtio eraill), byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i'n bodloni ein hunain y byddant yn trafod, defnyddio, storio, cadw a gwaredu gwybodaeth tystysgrif a hynny trwy gydymffurfio'n llawn â'r [cod ymarfer](#); a hynny yn hollol unol â'r polisi hwn.

Yn ogystal, byddwn yn sicrhau bod polisi ysgrifenedig o'r fath gan unrhyw gorff neu unigolyn y mae ceisiadau am dystysgrifau DBS yn cael eu cydarwyddo yn unol â'u cais, a phan fo angen, byddwn yn darparu polisi enghreifftiol i'r corff neu'r unigolyn hwnnw ei ddefnyddio neu ei addasu at y diben hwn.

ATODIAD 7 - Polisi ar recriwtio cyn-droseddwy yn aelodau staff

- Fel sefydliad sy'n asesu addasrwydd ymgeiswyr am swyddi sy'n cael eu cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) ac sy'n defnyddio gwiriadau cofnod troseddol a brosesir trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cydymffurfio'n llawn â'r [cod ymarfer](#) ac yn ymrwmo i drin pob cais am swydd yn deg.
- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn ymrwmo i beidio â gwahaniaethu yn annheg yn erbyn unrhyw wrthrych gwiriad cofnod troseddol ar sail euogfarn neu wybodaeth arall a ddatgelir.
- Dim ond euogfarnau a rhybuddion y mae ganddi hawl gyfreithiol i wybod amdanynt y caiff Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ofyn i unigolyn roi manylion amdanynt lle bo hawl gyfreithiol i wneud cais am dystysgrif DBS naill ai ar lefel safonol neu fanwl (lle mae'r swydd yn un sydd wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) 1975 fel y'i diwygiwyd, a lle bo'n briodol, Rheoliadau Deddf yr Heddlu fel y'i diwygiwyd).
- Dim ond am euogfarnau a rhybuddion nad ydynt yn rhai gwarchodedig y caiff Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ofyn i unigolion amdanynt.
- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi ymrwmo i drin ei staff, ei darpar staff neu ddefnyddwyr ei gwasanaethau yn deg, waeth beth fo'u hil, rhyw, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldebau am ddibynyddion, eu hoed, eu hanabledd corfforol/meddyliol neu eu cefndir troseddol.
- Mae gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant bolisi ysgrifenedig ar recriwtio cyn - droseddwy, sydd ar gael i'r holl ymgeiswyr Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ddechrau'r broses recriwtio.
- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn mynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb gyda'r amrywiaeth gywir o dalent, sgiliau a photensial ac mae'n croesawu ceisiadau gan ystod eang o ymgeiswyr, gan gynnwys y rhai sydd â chofnodion troseddol.
- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn dewis pob ymgeisydd ar gyfer cyfweiliad yn seiliedig ar eu sgiliau, eu cymwysterau a'u profiad.
- Dim ond pan fydd asesiad risg trwyadl wedi dangos ei fod yn gymesur ac yn berthnasol i'r swydd dan sylw y caiff cais am wiriad troseddol ei gyflwyno i'r DBS. Yn achos y swyddi hynny lle nodir bod angen gwirio cofnodion troseddol, bydd yr holl ffurflenni cais, hysbysebion swydd a briffiau recriwtio yn cynnwys datganiad y caiff cais am dystysgrif DBS ei gyflwyno os cynigir y swydd i'r unigolyn.
- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn sicrhau bod pawb ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant sy'n ymwneud â'r broses recriwtio wedi'u hyfforddi'n addas i nodi ac asesu perthnasedd ac amgylchiadau troseddau.
- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd yn sicrhau eu bod wedi derbyn arweiniad a hyfforddiant priodol yn y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â chyflogi cyn-droseddwy, e.e. Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974.
- Yn y cyfweiliad, neu mewn trafodaeth ar wahân, mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn sicrhau bod sgwrs agored a chytbwys yn cael ei chynnal ar bwnc unrhyw droseddau neu unrhyw fater arall a allai fod yn berthnasol i'r swydd. Gallai methu â datgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd arwain at dynnu'n ôl gynnig

swydd

- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn gwneud unrhyw wrthrych gwiriad cofnod troseddol a gyflwynir i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ymwybodol o fodolaeth y [cod ymarfer](#) ac yn trefnu bod copi ar gael ar gais.
- Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn ymrwymo i drafod unrhyw fater a ddatgelir ar dystysgrif DBS gyda'r unigolyn sy'n ceisio'r swydd cyn dileu'r cynnig swydd amodol.

